# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Nos Fawrth 20 Mehefin 2023**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.
Hefyd yn bresennol: - Ken Taylor - Cynghorydd Sir
Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Lowri Owen a Sharon Parry.

**2. Datganiad o Ddiddordeb**
Cyng. K. Taylor yn datgan diddordeb personol yn y materion cynllunio gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 16 Mai 2023 fel rhai cywir (Cynnig Cyng. S.E. Jones, eilio Cyng. G. Owen.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Cae Chwarae: Cytunwyd i dynnu'r hen feinciau o'r cae chwarae ac i'r clerc brynnu dwy o rai plastic wedi'u hailgylchu o Earth Anchors Ltd. yn eu lle. Cytunwyd hefyd i dalu am goed newydd i atgyweirio'r sied. Roedd ROSPA i fod i wneud arolwg o'r safle yn fuan.

4.2 Diffibriliwr – Roedd Cyng. Gwilym Jones am gwrdd â Scottish Power i drafod rhoi cyflenwad trydan wrth Stad Rhen Ysgol. Pwysleisiwyd nad oedd grantiau ar gael ar gyfer hyn, byddai angen neilltuo miloedd o bunnoedd i'w leoli yno. Bydd penderfyniad pendant yn cael ei wneud unwaith bydd y Cyngor yn gwybod cyfanswm y gost .

4.3 Goleuadau Stryd a phalmentydd Ffordd Minffordd - roedd y clerc yn disgwyl manylion pellach.

4.4 Neuadd y Pentref Caergeiliog: Roedd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd wedi croesawu'r awgrym o drosglwyddo'r Neuadd Bentref ar gytundeb prydles i'r Cyngor Cymuned gan y byddai yn sicr o gau heb gefnogaeth y Cyngor .Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar y ffordd ymlaen.

4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion:

Gwefan - cytunwyd i beidio uwchraddio'r wefan ar hyn o bryd.

Byddai'r Clerc yn cyfarfod â Rachael Evans ( Taith i Saith) i drafod y posibilrwydd o ddefnyddio'r neuadd ar gyfer sesiynau grŵp ar gyfer teuluoedd â phlant ifanc.

**5. Penderfyniadau Cynllunio**

HHP/2023/37 Bwthyn Ceirios, Caergeiliog – Caniatâd.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

6.1 **HHP/2023/103 46 Ffordd Lon Minffordd, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer adeiladu mynedfa gerbydau newydd - dim gwrthwynebiad.

6.2 **HHP/20223/104 44 Ffordd Lon Minffordd, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer adeiladu mynedfa gerbydau newydd - dim gwrthwynebiad.

6.3 **Uwchraddio gorsaf sylfaen telathrebu arfaethedig ym Maes Awyr Ynys Môn.**
Tynnu'r twr dellt 11m presennol a gosod monopol 1no. 20m i gynnal antenau 3no, modiwl GPS a gwaith ategol. – dim gwrthwynebiad

6.4 **Ymgynghoriad cyn cynllunio - Tir oddi ar Ffordd Minffordd, Llanfihangel-yn-Nhywyn**
Hysbysu bod Tai Gogledd Cymru a DU Construction Ltd yn bwriadu cyflwyno Cais Cynllunio Llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy gyda pharcio, mynediad a seilwaith cysylltiedig – dim gwrthwynebiad i'r cynnig ond cytunwyd i ofyn iddynt ystyried cynnwys lle chwarae un ai ar, neu ger y safle.

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd adroddiad ariannol y SCC ar gyfer y cyfnod rhwng 1.5.2023 a 31.5.2023 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

Cyfrif cyfredol £32,299.57, Cyfrif Adneuo £3,953.99

Cafwyd trafodaeth am y swm o arian oedd yn ymddangos yn y cyfrifon o'i gymharu â'r praesept blynyddol. Nodwyd fod y swm yn ymddangos yn ormodol, ond cytunwyd y byddai'n disbyddu'n gyflym iawn unwaith y trosglwyddwyd y Neuadd a phe bai'r prosiectau eraill (diffibriliwr / goleuadau stryd) yn dwyn ffrwyth.

**8.** Taliadau i'w gwneud - Cytunwyd ar y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mai) | £397.82 | GMS | 180 |
| S. Wharton | £396 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth** – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

9.1 Gorchymyn Traffig Arfaethedig 20mya - Rhanbarth Bro'r Llynnoedd/

9.2 Eisteddfod Yr Urdd Ynys Môn 2026 - Cyfarfod Cyhoeddus
Lleoliad – Ysgol Corn Hir, Llangefni Dyddiad - 22/06/23 Amser - 6yh.

Angen cofrestru

9.3 Rheolau Sefydlog Newydd – I'w drafod mis nesaf.

9.4 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad

9.5 Cau Ffordd Dros Dro - Lon Cymyran heibio Vermont tuag at Uned Achub Mynydd LLAB ( tua diwrnod o waith 30.6.2023)

9.6 Gerddi am ddim o Leoedd Lleol ar gyfer Natur

9.7 Bil Seilwaith (Cymru) 2023 – wedi'i ddosbarthu.

**10. Adroddiadau Aelodau**

10.1 Dywedodd y Cynghorydd William Victor Owen fod canghennau coed wedi tyfu dros y llwybr cyferbyn a'r Bwyty 'Chinese' yng Nghaergeiliog - byddai'r clerc yn rhoi gwybod I CSYM.

Roedd o hefyd ar fin archwilio'r lloches bysiau gyda'r Cyng. Gwilym O. Jones.

**11. Cyfarfod nesaf – 18 Gorffennaf 2023.**

: